COd ymddygiad cbdc

CHwaraewyr ifanc

MAE (ENW'R CLWB) yn cefnogi ymgyrch 'Tu ôl y Llinell, Tu ôl y Tîm' Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC) yn llawn ac yn ymrwymo i ddiogelu lles ei aelodau.

Mae bob un ohonom ni'n gyfrifol am sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â phêl-droed yn mwynhau profiad hwyliog, diogel a chadarnhaol.

A fyddech cystal â dangos eich cefnogaeth dros fesurau Diogelu CBDC drwy lofnodi'r datganiad isod. Drwy lofnodi'r Cod Ymddygiad hwn, rydych chi'n dangos eich bod yn deall yr amodau canlynol, a gallai torri'r rhain arwain at gamau disgyblu.

Mae disgwyl i chwaraewyr:

- Ymddwyn mewn ffordd sy'n batrwm i eraill drwy barchu a gwrando ar swyddogion y gêm a'ch hyfforddwyr.
- Dangos parch i'ch gwrthwynebwyr ac ysgwyd llaw â nhw ar ôl bob gêm.
- Derbyn cyfrifoldeb dros eich perfformiad a'ch ymddygiad eich hun.
- Trin pob cyd-chwaraewr yn gyfartal.
- Bod yn gyfeillgar ac yn groesawgar i chwaraewyr newydd.
- Peidio â bwlio na gwneud i unrhyw un deimlo'n anhapus neu'n drist.
- Annog, cefnogi a chyd-weithio ag aelodau eraill eich tîm.
- Cadw eich hun yn ddiogel.
- Dweud wrth rywun yr ydych chi'n ymddiried ynddynt am ymddygiad amhriodol neu beryglus os oes rhywbeth yn eich gwneud yn anhapus neu'n anghyfforddus.
- Gofalu am offer y mae'r clwb yn berchen arnynt.
- Peidio â gwahaniaethu ar sail crefydd, hil, rhyw, dosbarth cymdeithasol neu ddiffyg gallu. Parchwch bobl eraill.
- Peidio â chymryd rhan mewn unrhyw chwarae garw neu beryglus, bwlio, defnyddio iaith fras neu ymddygiad amhriodol.
- Gwerthfawrogi ymdrechion pob chwaraewr.
- Peidio â rhoi pwysau ar eraill i wneud rhywbeth nad ydynt eisiau ei wneud.
- Derbyn bod ymdrechu i ennill yn bwysicach na'r ennill ei hun.
- Ymdrechu i chwarae'n deg ar bob adeg – glynu at gyfreithiau ac ysbryd y gêm.
- Bod yn gadarnhaol, yn hawdd sgwrsio â chi a chynnig canmoliaeth i hyrwyddo amcanion y clwb ar bob adeg.
- Dangos safonau uchel, ymddwyn yn gyfrifol a pheidio byth â defnyddio geiriau, ymddygiad neu ystumiau ffiaidd, sarhaus, amharchus neu amhriodol.
- Parchu a gwrando ar farn chwaraewyr eraill.
- Peidio â phostio unrhyw beth cas ar y cyfryngau cymdeithasu a allai ddwyn gwarth ar y gêm.

ENW: LLOFNODWYD: dYDDIAD: